**Y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De**
**Pwyntiau Gweithredu**

| |
|---|
| **Aelodau'r Tasglu** |
| Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Alun Davies AC (Cadeirydd) |
| Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, Ken Skates AC |
| Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, Julie James AC |
| Ann Beynon, Cadeirydd Bwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd |
| Jocelyn Davies, Cyn Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio |
| Judith Evans, Pennaeth Coleg y Cymoedd |
| Andrew Diplock, Entrepreneur, Cynghorydd Busnes a Buddsoddwr Angel |
| Dr Chris Jones, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf |
| Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol, TUC |
| Yr Athro Brian Morgan, Prifysgol Caerdydd |
| Fiona Jones, Cyfarwyddwr, yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| **Aelodau'r Bwrdd** |
| Madeleine Brindley, Cynghorydd Arbennig |
| Huw Morris, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwr Grŵp SHELL |
| Maureen Howell, Llywodraeth Cymru, Dirprwy Gyfarwyddwr Cydraddoldeb a Ffyniant |
| John Howells, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio |
| Deri Ap Hywel, Arweinydd Prosiect Tasglu'r Cymoedd, Llywodraeth Cymru |
| Rhodri Asby, Dirprwy Gyfarwyddwr, Uned Ymadael â’r UE a’r Strategaeth ERA, Llywodraeth Cymru |
| **Ysgrifenyddiaeth y Tasglu** |
| Lucy Hoddinott, Llywodraeth Cymru |
| Laura Evans, Llywodraeth Cymru |
| Dawn Chadwick, Llywodraeth Cymru |
| **Ymddiheuriadau** |
| Gaynor Richards, Cyfarwyddwr, Cyngor Gwirfoddol Cymunedol Castell-nedd Port Talbot |
| Y Cyng. Andrew Morgan, Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf |

**1: Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes (ARD) aelodau'r tasglu i'r pumed cyfarfod. Rhoddodd amlinelliad o gynnwys y ddogfen lefel uchel, sef 'Ein Cymoedd Ni, Ein Dyfodol Ni' – a gafodd ei datblygu drwy gysylltu â'r gymuned ar raddfa fawr, a thrwy gynnal gweithdai ar y ffrwd waith a arweiniwyd gan aelodau o'r tasglu.

**2: Swyddi a Sgiliau**

Trafodwyd yr angen am fwy o eglurder ynglŷn ag elfennau allweddol o'r adran Swyddi a Sgiliau yn y cynllun drafft, gan gynnwys:

- Y targed arfaethedig o ran cyfleoedd gwaith i bobl yn y cymoedd nad ydynt mewn cyflogaeth ar hyn o bryd.
- Mwy o bwyslais ar ennill sgiliau.
- Pwrpas y canolbwyntiau strategol arfaethedig
- Y modd y bydd y tasglu'n cydweithio â phrosiectau seilwaith allweddol, fel y Metro a Bargeinion Dinesig Caerdydd a Bae Abertawe i sicrhau bod y cymoedd yn elwa arnynt.

Cytunwyd bod angen i'r cynllun ysbrydoli syniadau.

**3: Gwasanaethau Cyhoeddus**

Trafododd y tasglu Flaenoriaeth 2: 'Gwell Gwasanaethau Cyhoeddus'. Roedd prif bwyntiau'r drafodaeth yn cynnwys:

- Y modd y gallai'r cynllun fod yn fwy eglur am bwysigrwydd sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio'n fwy agos â'i gilydd.
- Bod angen gwahaniaethu mwy rhwng canolbwyntiau strategol a chanolfannau cymunedol.
- Bod angen sicrhau bod y cynllun yn gydnaws â Chynllun Cyflenwi Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru.
- Bod angen edrych ar ffyrdd mwy arloesol o ddiwallu'r angen am dai.
- Rôl Awdurdodau Lleol.

**4: Yr Amgylchedd**

Trafododd y tasglu rôl yr amgylchedd yn y cymoedd, yn enwedig mewn perthynas â chyfleoedd ym maes twristiaeth. Roedd prif bwyntiau'r drafodaeth yn cynnwys:

- Yr hyn sy'n rhagorol ac yn unigryw am y cymoedd.
- Bod angen sicrhau ei bod yn hawdd cyrraedd cyrchfannau twristiaid.
- Mantais helpu cymunedau i berchenogi eu cyrchfannau twristiaid lleol.
- Rôl Trafnidiaeth Cymru wrth helpu twristiaid i ddod o hyd i'w ffordd yn y cymoedd, yn yr un modd â Thrafnidiaeth Llundain.

Y cyfarfod nesaf: 18 Medi 2017

Cloi.